Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

2. Rheoli eich sefydliad

2.14 Defnyddio hyfforddwyr ac ymgynghorwyr ar eu liwt eu hunain

Cyflwyniad

Pwrpas y daflen wybodaeth yma yw helpu mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol i ddefnyddio hyfforddwyr ac ymgynghorwyr ar eu liwt eu hunain.

Pryd ydych chi angen cymorth allanol?

Mae nifer o fudiadau'r sector wirfoddol yn defnyddio medrusrwydd arbenigol hyfforddwyr ac ymgynghorwyr allanol ar gyfer unrhyw beth o wella ansawdd y gwasanaeth neu effeithlonrwydd y pwyllgor rheoli, i godi arian a datblygu prosiectau newydd. Weithiau ni fyddwch yn gwybod beth sydd angen arnoch, ond fe hoffech chi berson allanol i'ch helpu chi ddarganfod i ba gyfeiriad rydych yn mynd. Os nad oes gennych y sgiliau na'r amser yn fewnol, efallai dylech geisio cael cymorth allanol. Ymgynghorwch â'ch cyngor gwirfoddol sirol bob amser; gallant hwy roi gwybod i chi am ffynonellau rhad ac am ddim.

Paratoi i weithio gyda hyfforddwyr ac ymgynghorwyr

Trafodwch yr hyfforddiant neu'r ymgynghoriad gyda'ch cydweithwyr i geisio cytuno ar beth rydych ei angen a sut bydd pobl yn cymryd rhan. Penderfynwch sut fyddwch yn mynd yn eich blaen:

- pwy fydd yn ysgrifennu'r briff?
- ydych chi angen is-grŵp ar gyfer y gwaith ymgynghorol yma?
- pwy fydd yn gyfrifol am y gwaith ac am fonitro ac adrodd nôl?
- sut fyddwch chi'n talu amdano?

Paratowch friff ar beth rydych eisiau a sut - gweler isod:

Hyfforddiant – dylai'r briff gynnwys:

- nod, amcanion a chanlyniadau dysgu'r hyfforddiant yr hoffech eu cyrraedd, ac arddull a dull perthnasol i gyfranogwyr y cwrs;
- gwybodaeth ar unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gynhyrchir gan yr hyfforddwr, e.e. nodiadau hyfforddi;
- y gost - naill ai fel ystod neu uchafswm, a dyddiadau a lleoliad posib, a nifer posib y cyfranogwyr;
- cyfeiriad at hawlfraint (pwy sy'n berchen arno?) a defnydd pellach y deunyddiau.

Ymgynghoriad - dylai'r briff gynnwys:

- manylion cefndir perthnasol ar y mudiad a'i amcanion;
- y mater dan sylw a chanlyniadau disgwyliedig yr ymgynghoriad – gan gynnwys unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig yr hoffech eu cynhyrchu e.e. adroddiad yr ymgynghoriad;
- unrhyw fanylion ar y dull a ddefnyddir, e.e. a fydd yna grŵp llywio, pa ymgynghoriad a wneir?;
- y gost, naill ai fel ystod neu uchafswm; y llinell amser disgwyliedig a lleoliad yr ymgynghoriad;
- manyleb person yr un sydd ei angen ar gyfer y swydd, gan nodi sgiliau, galluoedd, profiad a chymwysterau perthnasol, ac ati.

Mannau peryglus

Meddyliwch yn ddwys am y briff, am ei fod yn hynod o hawdd i ofyn am y gwaith anghywir drwy ei ddiffinio'n wael neu heb ddigon o fanylder. Rhaid i chi amlinellu'n union beth sydd ei angen. Os ydych yn rhoi cyfarwyddiadau annelwig neu aneglur, ni fyddwch yn gallu monitro'r gwaith. Efallai bydd eich gwir anghenion yn anodd eu rhoi ar bapur; os oes gennych amheuon, codwch hyn gyda'r ymgynghorydd neu'r hyfforddwr yn y *cam trafod*.

Dethol hyfforddwyr ac ymgynghorwyr

Dilynwch y canllawiau isod i'ch helpu i ddod o hyd i'r person sy'n cwrdd â'ch gofynion chi. Ble ydych chi'n dod o hyd i ymgynghorwyr a hyfforddwyr? Efallai fod gan eich mudiad ei gysylltiadau ei hun. Gallwch edrych ar fas data hyfforddwyr ac ymgynghorwyr sydd â meini prawf sylfaenol drwy wefan WCVA. *Nid yw WCVA yn gwarantu neu argymell unrhyw unigolyn neu fudiad a nodwyd, ac nid yw'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb am y gwaith a wnânt ar gyfer eich mudiad chi.* Mae'n bwysig eich bod yn dilyn nifer o gamau allweddol wrth ddethol y person iawn am y gwaith. Unwaith y cewch restr o hyfforddwyr neu ymgynghorwyr, cysylltwch â'r rheiny sy'n cwrdd â'ch meini prawf i weld os oes ganddynt ddiddordeb yn y gwaith, ac ar gael yn ôl eich llinell amser. Anfonwch y briff at y rheiny sy'n dal ar y rhestr gyda dyddiad cau ar gyfer atebion.

Gofynnwch iddynt am y manylion canlynol yn eu hatebion:

Hyfforddwyr:

- eu profiad gyda mudiadau tebyg a chyrsiau hyfforddi
- eu cyfradd ddyddiol, a chyfanswm y ffi
- eu dulliau a'u harddull
- enwau dau neu dri chanolwr a all ddarparu adborth ar eu gwaith

Ymgynghorwyr

- eu profiad gyda mudiadau tebyg a chyrsiau hyfforddi
- eu *pwynt gwerthu unigryw*
- eu cyfradd ddyddiol, nifer y diwrnodau gwaith posib, a chyfanswm y ffi
- eu dulliau a'u harddull
- enwau dau neu dri chanolwr a all ddarparu adborth ar eu gwaith
- ble fyddant yn gweithio

Rhestr fer a dethol

Tynnwch restr fer yr hyfforddwyr a'r ymgynghorwyr yn erbyn y fanyleb person a'r briff.

Gall dethol gynnwys cyfweliad ffurfiol neu drafodaeth anffurfiol, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Wrth ddefnyddio cwmni ymgynghori, siaradwch â'r person fydd yn gwneud y gwaith, neu'r prif gyswllt. Dylai'r drafodaeth sôn am y canlynol:

- pwy fydd yn rhan o'r gwaith
- eglurwch unrhyw bwyntiau parthed y gwaith; darparwch gyfle iddynt ofyn am y gwaith
- y ffi, a sut fydd yn cael ei dalu (e.e. ar gwblhad camau'r gwaith)
- graddfeydd amser

Ar ôl y drafodaeth, cymharwch gryfderau a gwendidau, graddfeydd amser, eu dealltwriaeth o'r gwaith, cydymdeimlad gyda'ch gwerthoedd craidd, a ffioedd.

Geirda

Gofynnwch am eirda bob tro cyn cadarnhau cytundeb. Gofynnwch gwestiynau penodol i'r canolwyr am y gwaith rydych chi eisiau gwneud yn ogystal â materion cyffredinol megis ystod profiad, dibynadwyedd, effeithlonrwydd a dulliau gweithio ac ati. Ar gyfer gwaith cymhleth neu sylweddol, dylech gynnwys copi o'r briff. Atodir ffurflen gais geirda. Gallwch gynnwys cwestiynau ychwanegol parthed natur yr hyfforddiant neu'r ymgynghoriad penodol.

Ffioedd

Mynnwch gael dyfyniad pris dyddiol fel y gallwch gymharu, a mynnwch wybod beth sy'n gynwysedig yn y pris. Er enghraifft, ydy e'n cynnwys costau llety a theithio? Ydy TAW yn gynwysedig?
Byddwch yn barod i drafod am ostyngiad. Peidiwch â synnu at gyfradd ddyddiol uchel ar yr olwg gyntaf - mae mwyafrif yr hyfforddwyr a'r ymgynghorwyr sy'n gweithio yn y sector wirfoddol yn codi tâl o leiaf £200 i £400 y diwrnod.

Ariannu

Os ydych chi angen codi arian i dalu am hyfforddwr neu ymgynghorydd, efallai bydd angen cymorth ychwanegol arnoch chi. Gallwch gysylltu â WCVA neu CGLL am wybodaeth ar ffynonellau ariannu. Gan fod hyfforddi ac ymgynghori yn ddwy ran bwysig o fudiadau gwirfoddol sy'n datblygu, argymhellir eich bod yn cynllunio ymlaen llaw, a chynnwys swm ar gyfer hyfforddiant (ac o bosib ymgynghoriad) yn eich prif geisiadau grant.

Cytundebau

Sefydlwch gytundeb ysgrifenedig clir gyda'r hyfforddwr neu'r ymgynghorydd bob amser. Efallai gallwch ofyn am gymorth gyda chytundebau mwy cymhleth (ar gyfer materion megis eiddo deallusol). Ond yn y dull symlaf, gall cytundeb fod yn llythyr at yr hyfforddwr neu'r ymgynghorydd, sy'n datgan:

- Crynodeb o'r gwaith i'w wneud, amcanion a cherrig milltir allweddol yn erbyn graddfeydd amser.
- Hyfforddiant – dyddiadau, amseroedd a lleoliadau; Ymgynghoriad – dyddiadau dechrau a gorffen
- Pris y cytundeb a beth sy'n rhan ohono.
- Mewnbwn eich mudiad. Hyfforddiant - bydd rhaid i chi nodi pwy fydd yn trefnu'r lleoliad a llungopïo, ac ati. Ymgynghoriad - nodwch pa wybodaeth a ddarperir gan eich mudiad, ac ati.

Rheoli'r ymgynghoriad

Unwaith bydd yr hyfforddwr neu'r ymgynghorwr wedi'i ddethol, mireiniwch y briff gyda hwy, cytunwch unrhyw newidiadau, a'r briff terfynol. Monitrwch y rhaglen yn erbyn yr amcanion, cerrig milltir ac allbwn.

Gwerthuso

Sicrhewch fod yr hyfforddiant yn cael ei werthuso ac y gweithredir pob gwybodaeth. Gweler taflen wybodaeth D3 am fanylion pellach. Ar gyfer ymgynghoriadau, dylid sefydlu system syml i'ch caniatáu i gymharu amcanion y briff gyda chanlyniadau'r ymgynghoriad. Defnyddiwch restrau gwirio syml a / neu drafodaeth neu sesiwn derfynol i sefydlu:

- a wnaeth yr hyfforddwr neu'r ymgynghorydd y cyfan roeddent fod i wneud?
- a wnaethant beth roedd eu hangen?
- a wnaeth eich mudiad y cyfan a gytunwyd arno i weithredu'r gwaith hyfforddi neu ymgynghori?
- oedd yr amserlen yn effeithiol?
- sut fyddech chi'n trefnu pethau'n wahanol y tro nesaf?

Gweithrediad

Y rhan mwyaf anodd fydd gweithredu ar y gwersi a'r cynllunio a gynhyrchwyd gan yr hyfforddiant neu'r ymgynghoriad. Gall cynllun busnes fod yn ddiwerth heb wybodaeth fanwl am sut i'w gyflawni. Dylech sicrhau fod yr ymgynghorydd yn rhoi cyfarwyddyd i chi ar fater gweithredu a monitro (gwirio eich cynnydd).

Gwybodaeth bellach

WCVA
Ffôn: 0800 2888 329
help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Y Mwnt, 18 Heol y Frenhines, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1JT
Elusen Gofrestredig *1062144*

Ffôn: 01267 245555 info@cavs.org.uk
Ffacs: 01267 245550 www.cavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:18/03/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk